# Canllaw i apeliadau

Mehefin 2024
Tachwedd 2024
Ionawr 2025

# Tabl o'r Cynnwys

1 Cyflwyniad ... 3
2 Gwybodaeth Allweddol ... 4
Pwy sy'n gallu cyflwyno apêl? ... 4
Sut ydw i'n gallu cyflwyno apêl? ... 4
Pa gamau y bydd CBAC yn eu cymryd ar ol derbyn y cais am apêl? ... 4
Beth yw'r ffi am apêl? ... 5
3 Adolygiad o'r marcio ... 5
Beth yw gwall marcio? ... 5
4 Adolygiad o'r Cymedroli ... 6
Beth yw gwall Cymedroli? ... 6
Pa wybodaeth y dylid ei darparu i gefnogi'r cais am apêl? ... 6
5 Apeliadau Camymddwyn ... 8
6 Trefniadau mynediad, addasiadau rhesymol, ac ystyriaeth arbennig ... 9
7 Adolygiad o benderfyniadau gweinyddol arall ... 10
8 Gwybodaeth ddefnyddiol ... 10
Atodiad 1: Gwrandawiad Apêl ... 11

# 1 Cyflwyniad

Pwrpas y canllaw hwn yw rhoi arweiniad a chyngor ar weithdrefn apelio CBAC ar gyfer pob cymhwyster CBAC a CBAC Eduqas. Mae'n cynnwys gwybodaeth am apeliadau ac adolygiadau yn erbyn penderfyniadau CBAC mewn perthynas â'r canlynol:

- Adolygiadau o'r Marcio a'r Cymedroli
- Camymddwyn canolfan, staff y ganolfan ac ymgeiswyr
- Trefniadau mynediad, addasiadau rhesymol ac ystyriaeth arbennig

Yn ogystal, gall rhai penderfyniadau gweinyddol eraill fod yn destun adolygiad gan swyddogion CBAC.

Dylid darllen y canllaw hwn ar y cyd â dogfen gyfredol y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC) 'Canllaw ar brosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu' sydd ar gael ar wefan y CGC.

Mae Adran 2 y canllaw hwn yn darparu gwybodaeth allweddol am bob math o apeliadau tra bod adrannau 3-6 yn darparu arweiniad mwy manwl ar apeliadau yn erbyn adolygiadau o farcio/gymedroli, camymddwyn, trefniadau mynediad, addasiadau rhesymol ac ystyriaeth arbennig, ac adolygiadau o benderfyniadau gweinyddol eraill.

Gellir cael canllawiau pellach ar weithdrefnau apelio trwy gysylltu â Thîm Cydymffurfio CBAC drwy e-bostio apeliadau@cbac.co.uk neu dros y ffôn ar 02920 265351.

Mae amodau a gofynion y rheoleiddwyr ynglŷn ag apeliadau ar gael ar eu gwefannau unigol:

Ofqual

Cymwysterau Cymru

CCEA

**Nid** yw apeliadau'n cynnwys:

- Ymholiadau cyn cwblhau adolygiad o'r marcio/cymedroli
- Ymholiadau ynglŷn â phapurau cwestiynau a chynlluniau marcio
- Cwynion neu ymholiadau am gymwysterau a manylebau
- Cwynion neu gwestiynau am anodiadau gan gynnwys anghytuno ag anodiadau
- Cwestiynau neu gwynion am ddeunyddiau adnoddau a DPP CBAC
- Cwestiynau neu gwynion am berfformiad ar draws unedau, manylebau a blynyddoedd

# 2 Gwybodaeth allweddol

## Pwy sy'n gallu cyflwyno apêl?

- Pennaeth y ganolfan ar ran ymgeiswyr a gofrestrwyd yn eu canolfan.
- Gall ymgeisydd preifat gyflwyno apêl er y byddem yn argymell ei fod yn chwilio am gyngor ac arweiniad gan ei ganolfan gofrestredig.

Diffiniad CBAC o ymgeisydd preifat yw: unigolyn sy'n dilyn cwrs astudio'n annibynnol ond yn sefyll arholiad a/neu asesiad arall mewn canolfan arholiadau wedi'i chymeradwyo gan CBAC. Ni fydd y ganolfan sy'n cofrestru'r ymgeisydd wedi cyflwyno'r asesiad i'r dysgwr nac wedi cyfrannu'n sylweddol at baratoi'r Dysgwr ar gyfer yr asesiad ac wedi prynu'r cymhwyster ar ran y dysgwr.

**Ni all ymgeiswyr nad yw'r diffiniad o ymgeisydd preifat yn addas ar eu cyfer, na'u rhieni/gofalwr, gyflwyno cais am apêl yn uniongyrchol i CBAC, oni bai bod amgylchiadau eithriadol fel cau canolfannau, lle nad yw'r Pennaeth ar gael i gyflwyno apêl**

- Gall aelod o staff y ganolfan neu bersonél dan gontract yn y ganolfan apelio yn erbyn canfyddiad o gamymddwyn a/neu'r sancsiwn a osodwyd arno/arni.

## Sut ydw i'n gallu cyflwyno apêl?

- Llenwch ffurflen 'Cais am Apêl' y CGC o fewn y terfynau amser a bennir yn y ddogfen hon a'i dychwelyd i: apeliadau@cbac.co.uk.
- Sicrhewch fod y ffurflen yn nodi'r seiliau dros apelio yn glir ac yn gryno, ac yn darparu gwybodaeth a thystiolaeth benodol i gefnogi'r apêl.

## Pa gamau y bydd CBAC yn eu cymryd ar ôl derbyn y cais am apêl?

Bydd eich cais yn cael ei gydnabod cyn pen 5 diwrnod gwaith ar ôl ei dderbyn. Bydd uwch swyddog nad yw wedi bod yn ymwneud â'r achos yn flaenorol yn ystyried:

- P'un a oedd yr apêl wedi'i derbyn o fewn y terfyn amser
- P'un a oedd yr apêl wedi'i chyflwyno gan y person priodol ai peidio, fel yr amlinellir yn adrannau 3-6 o'r ddogfen hon
- P'un a yw'r apêl yn cynnwys gwybodaeth a thystiolaeth benodol i alluogi derbyn yr apêl
- P'un a ofynnwyd am y gwasanaeth ar ôl y canlyniadau a'i chwblhau (lle mae'r apêl yn ymwneud â phenderfyniadau gwasanaethau ar ôl y canlyniadau)

Os na fodlonir unrhyw un o'r pedwar amod uchod, ni fydd yr apêl yn cael ei derbyn. Os caiff ei derbyn, bydd Uwch Swyddog yn cynnal ymchwiliad rhagarweiniol yn seiliedig ar y wybodaeth a'r dystiolaeth a gyflwynwyd.

## Beth yw'r ffi am apêl?

Cyhoeddir ffioedd yn ein dogfen Ffioedd a Dyddiadau Cau Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau sy’n berthnasol i bob cyfres sydd i’w gweld ar wefannau CBAC ac Eduqas.

Ad-delir y ffi os cadarnheir yr apêl. Mae'r ffioedd hyn yn gymwys i apeliadau gwasanaethau ar ôl y canlyniadau yn unig (adolygiad o'r marcio/cymedroli).

# 3 Adolygiad o'r marcio

Ar ôl cyhoeddi canlyniad yr adolygiad o'r marcio, os yw pennaeth canolfan/ymgeisydd preifat yn ystyried bod gwall marcio wedi digwydd a/neu nad yw CBAC wedi gweithredu ei weithdrefnau'n briodol, yn deg ac yn gyson, gellir cyflwyno cais am apêl yn unol â chanllawiau'r CGC i broses apelio'r cyrff dyfarnu a gwybodaeth yn y canllaw hwn. Ni dderbynnir apêl ar gyfer ymgeiswyr nad oeddent wedi'u cynnwys yn y broses o adolygu'r marcio.

## Beth yw gwall marcio?

Mae gwall marcio'n cael ei ddiffinio fel marc na ellid yn rhesymol fod wedi'i ddyfarnu i ymatebion ymgeisydd pan fydd y cynllun marcio ar gyfer y papur a gweithdrefnau marcio eraill CBAC wedi'u cymhwyso'n gywir. Gall gwall marcio ddigwydd o ganlyniad i:

- wall gweinyddol
- methiant i gymhwyso'r cynllun marcio os mai dim ond ateb 'cywir' neu 'anghywir' sydd i dasg
- arfer barn academaidd yn afresymol.

Gall gwall marcio ddigwydd, er enghraifft, os nad yw arholwr wedi cymhwyso'r cynllun marcio neu heb farcio ymateb teilwng.

Fodd bynnag, mewn llawer o asesiadau, fel traethodau Saesneg neu Hanes, nid oes 'marc cywir' a 'marc anghywir'. Mae'r mathau hyn o asesiadau yn gofyn i arholwyr ddefnyddio'u barn academaidd. Gall dau arholwr hyfforddedig sy'n arfer eu dyfarniad academaidd yn rhesymol a heb wneud camgymeriad, ddyfarnu marciau gwahanol i ateb yr un ymgeisydd ac ni ystyrir hyn yn wall marcio. Mewn apêl, ni fydd un marc rhesymol yn cael ei newid am farc rhesymol arall.

**Mae arfer barn academaidd yn afresymol yn cynnwys:**

- marcio sy'n rhy llym neu hael y tu hwnt i'r hyn y gellid ei ddisgwyl yn rhesymol gan arholwr hyfforddedig yn cymhwyso'r cynllun marcio
- lle na roddwyd marc i ran o ateb ond lle y dylai arholwr hyfforddedig a gwybodus sy'n ymddwyn yn rhesymol fod wedi rhoi marc
- lle mae marcio ateb yn awgrymu nad oedd gan yr arholwr unrhyw sail resymegol dros ddyfarnu ei farciau.

Yn unol â gofynion rheoleiddiol, bydd CBAC bob amser yn cywiro gwall marcio ond ni fydd yn diwygio marc rhesymol am farc rhesymol arall.

Mae llythyr canlyniad yr adolygiad o'r marcio yn cynnwys y rheswm dros y canlyniad h.y. gwall gweinyddol, nid oedd y sgript wedi'i farcio'n gwbl gytûn â'r cynllun marcio, roedd y marcio gwreiddiol yn rhy hael, roedd y marcio gwreiddiol yn rhy lym, roedd y marcio gwreiddiol yn rhy hael ac yn rhy lym ar draws cwestiynau gwahanol, gwnaed rhai addasiadau am i fyny ac am i lawr i'r marciau a ddyfarnwyd i gwestiynau unigol, gan arwain at yr un marc cyfanswm a ddyfarnwyd yn wreiddiol, dim newid.

# 4 Adolygiad o'r Cymedroli

Ar ôl cyhoeddi canlyniad yr adolygiad o'r marcio, os yw pennaeth canolfan yn ystyried bod gwall cymedroli wedi digwydd a/neu nad yw CBAC wedi rhoi ei weithdrefnau ar waith yn briodol, yn deg ac yn gyson, gellir cyflwyno cais am apêl yn unol â chanllawiau'r CGC i broses apelio'r cyrff dyfarnu a gwybodaeth yn y canllaw hwn. Ni dderbynnir apêl ar gyfer ymgeiswyr nad oeddent wedi'u cynnwys yn y broses o adolygu'r cymedroli.

## Beth yw gwall cymedroli?

Mae gwall cymedroli yn cael ei ddiffinio fel canlyniad na ellid yn rhesymol fod wedi'i gyrraedd o ystyried gwaith yr ymgeisydd, marcio'r ganolfan ar y gwaith hwnnw, y meini prawf y mae perfformiad ymgeiswyr wedi'u gwahaniaethu yn eu herbyn a gweithdrefnau cymedroli CBAC. Gall gwall cymedroli ddigwydd o ganlyniad i:

- wall gweinyddol
- methiant i gymhwyso'r cynllun marcio os mai dim ond ateb 'cywir' neu 'anghywir' sydd i dasg
- arfer barn academaidd yn afresymol.

**Mae arfer barn academaidd yn afresymol yn cynnwys:**

- marcio sy'n rhy llym neu hael y tu hwnt i'r hyn y gellid ei ddisgwyl gan arholwr hyfforddedig yn cymhwyso'r cynllun marcio yn gywir
- Lle na roddwyd marc i ran o ateb ond lle y dylai cymedrolwr hyfforddedig a gwybodus sy'n ymddwyn yn rhesymol fod wedi rhoi marc
- lle mae marcio ateb yn awgrymu nad oedd gan y cymedrolwr unrhyw sail resymegol dros ddyfarnu ei m/farciau.

Yn unol â gofynion rheoleiddiol, bydd CBAC bob amser yn cywiro gwall cymedroli.

Mae'r adroddiad ar adolygiad o gymedroli a gyhoeddwyd i'r ganolfan yn cynnwys y rheswm/rhesymau dros y canlyniad.

## Pa wybodaeth y dylid ei darparu i gefnogi'r cais am apêl?

Mae'n rhaid i bennaeth y ganolfan/ymgeisydd preifat nodi'r rhesymau dros apelio yn glir ac yn gryno. Mae dwy sail dros apelio:

**i) Yn nhyb yr apelydd, nid yw CBAC wedi cymhwyso'i weithdrefnau, a/neu weithdrefnau'r CGC yn gyson, yn gywir ac yn deg wrth lunio barn (nid yw arfer barn**

**academaidd o ran canlyniad y marcio neu gymedroli yn sail dros gais neu ddilyn gweithdrefn) neu heb gymhwyso gweithdrefnau sy'n gyson â gofynion rheoleiddiol.**

Mae rhagor o wybodaeth am ein hasesiadau marcio a chymedroli ar gael er ein gwefannau CBAC ac Eduqas

Mae CBAC yn dilyn holl weithdrefnau'r CGC yn cynnwys gweithdrefnau ar gyfer Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau, Apeliadau, Camymddwyn, Ystyriaeth Arbennig, Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol.

Os gwneir apêl ar y sail nad yw CBAC wedi cymhwyso ei weithdrefnau ei hun, neu weithdrefnau'r CGC, yn gyson, yn gywir ac yn deg wrth lunio barn neu wrth gynnal gwiriad clerigol, adolygiad o'r marcio neu'r cymedroli, **rhaid** i'r apêl ddarparu tystiolaeth ategol benodol o ba weithdrefn nad yw wedi'i chymhwyso'n iawn.

**ii) Mae'r apelydd o'r farn bod CBAC wedi gwneud camgymeriad marcio neu gymedroli**

Mae gofynion rheoleiddiol yn nodi na chaiff cyrff dyfarnu newid marc oni bai bod gwall yn y marcio/cymedroli.

Rhaid i'r apêl gynnwys gwybodaeth benodol gan ddefnyddio gwaith yr ymgeisydd a'r cynllun marcio i ddangos lle y credwch y cafodd y gwall(au) ei wneud/eu gwneud. Ni dderbynnir apeliadau ar sail honiadau cyffredinol. Er enghraifft, nad oedd y canlyniad yn cyrraedd y radd a ragwelwyd ar gyfer ymgeisydd neu fod canlyniadau carfan yn is na blynyddoedd blaenorol neu ragfynegiadau, nad oedd canlyniadau ymgeisydd/carfan mewn uned/cydran cystal â'u canlyniadau mewn uned/cydran arall neu gymwysterau eraill.

Unwaith y derbynnir y cais, bydd CBAC yn penderfynu a yw am ei dderbyn ai peidio. Bydd rheswm yn cael ei roi os na dderbynnir cais. Ni dderbynnir cais os:

- Nad yw'n cael ei gyflwyno gan bennaeth canolfan/ymgeisydd preifat
- Nad yw wedi'i dderbyn o fewn **30 diwrnod calendr** ar ôl cyhoeddi canlyniad yr adolygiad o'r marcio/cymedroli. Lle gofynnir am gopi o sgript, caniateir 15 diwrnod calendr i'r apelydd ar ôl adeg darparu'r sgript i gyflwyno cais am apêl.
- Nid yw'r adolygiad o'r broses marcio/cymedroli wedi'i gwblhau o fewn yr amserlenni a nodir yng nghanllawiau Gwasanaethau ar ôl y Canlyniadau y CGC a CBAC.
- Na ddarperir gwybodaeth a thystiolaeth benodol i gefnogi un o'r ddwy sail dros apelio
- Nad yw sail yr apêl yn ddilys.

Os derbynnir yr apêl, bydd Ymchwiliad Rhagarweiniol yn cael ei gynnal.

Bydd yr Ymchwiliad Rhagarweiniol yn gwirio a yw CBAC wedi cymhwyso'r gweithdrefnau yn gywir, yn deg ac yn gyson ai peidio, fel y nodwyd gan y ganolfan yn ei chais am apêl. Lle mae sail yr apêl yn ymwneud â gwall marcio/cymedroli, fel arfer bydd adolygwr nad oedd yn rhan o'r marcio/cymedroli gwreiddiol na'r adolygiad cyntaf yn cynnal ail adolygiad o'r marcio/cymedroli.

Yn seiliedig ar yr ymchwiliad rhagarweiniol, bydd yr apêl yn cael ei gwrthod neu ei chadarnhau. Os bydd yn cael ei chadarnhau, cymerir camau priodol i gywiro'r gwall.

Fel arfer bydd pennaeth y ganolfan/yr ymgeisydd preifat yn cael gwybod am y penderfyniad a'r rhesymau o fewn **6 wythnos galendr** ar ôl i CBAC dderbyn y cais am apêl a'r holl wybodaeth/dystiolaeth berthnasol.

Os yw pennaeth y ganolfan/yr ymgeisydd preifat o'r farn bod gwall o hyd yn dilyn canlyniad yr ymchwiliad rhagarweiniol, dylid defnyddio ffurflen 'Cais am Apêl' y CGC i gyflwyno cais am wrandawiad Apêl. Rhaid cyflwyno'r cais o fewn **2 wythnos galendr** i dderbyn y llythyr am ganlyniad yr Ymchwiliad Rhagarweiniol.

Wrth gynnal Gwrandawiad Apêl, bydd CBAC yn dilyn y gweithdrefnau a ddogfennir yn nogfen y CGC ***Canllaw ar brosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu***.

**Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth am y gweithdrefnau ar gyfer cynnal gwrandawiad Apêl**

Y Gwrandawiad Apêl yw cam olaf proses apelio CBAC. Os yw'r apelydd yn dal o'r farn bod gwall wedi digwydd, gellir gwneud cais am apêl i'r rheoleiddiwr perthnasol mewn perthynas â rhai cymwysterau.

# 5 Apeliadau Camymddwyn

Mae'n rhaid i CBAC dderbyn apeliadau yn erbyn penderfyniadau camymddwyn o fewn **2 wythnos galendr** i dderbyn y canlyniad drwy ddefnyddio ffurflen 'Cais am Apêl' y CGC. Mewn achos o gamymddwyn ymgeisydd, mae'n rhaid i bennaeth y ganolfan gyflwyno'r apêl ar gyfer ymgeiswyr mewnol. Gall ymgeiswyr preifat gyflwyno apêl hefyd, ond cynghorwn eu bod yn chwilio am gyngor ac arweiniad gan eu canolfan gofrestru. Mewn achos o gamymddwyn gan staff y ganolfan, mae'n rhaid i bennaeth y ganolfan neu'r unigolyn dan sylw gyflwyno'r apêl.

Rhaid i'r rhesymau dros apelio fod yn rhai rhesymol, er enghraifft:

- ni ymdriniwyd â'r digwyddiad yn unol â'r gweithdrefnau a gyhoeddwyd yn nogfen y CGC, Amau Camymddwyn – Polisïau a Gweithdrefnau;
- roedd y penderfyniad yn afresymol o ystyried y dystiolaeth a gyflwynwyd i CBAC.
- mae mwy o dystiolaeth (yn cynnwys tystiolaeth feddygol) wedi dod i'r amlwg a all newid penderfyniad y corff dyfarnu;
- mae'r sancsiwn a osodwyd yn anghymesur â difrifoldeb y camymddwyn.

Nid yw'r canlynol ynddynt eu hunain yn sail ar gyfer apêl, fodd bynnag, efallai y bydd yr apelydd yn dymuno cynnwys y wybodaeth yn ei gais:

- Nid oedd yr unigolyn yn bwriadu twyllo
- Mae gan yr unigolyn gofnod di-fai/geirda cymeriad da
- Gall yr unigolyn golli ei le yn y brifysgol neu'r coleg
- Mae'n ddrwg iawn gan yr unigolyn am ei weithredoedd.

Gellid gwrthod y cais am apêl os nad oes tystiolaeth newydd a bod sail cyflwyno'r apêl yn wan neu heb ei chyfiawnhau.

**Ar gyfer apeliadau camymddwyn ymgeisydd,** os oes tystiolaeth resymol, bydd uwch swyddog nad oedd ynghlwm â'r achos gwreiddiol fel arfer yn cynnal ymchwiliad rhagarweiniol. Gellir cyfeirio'r penderfyniad at Bwyllgor. Bydd yr apelydd yn cael gwybod am y penderfyniad

a'r rhesymau. Os yw'r apelydd o'r farn bod y penderfyniad hwn yn anghywir ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd, gellir gwneud cais am wrandawiad apêl.

**Ar gyfer apeliadau camymddwyn gan ganolfan a staff canolfan**, os oes tystiolaeth resymol i gefnogi'r cais, bydd uwch swyddog nad yw wedi ymwneud â'r achos gwreiddiol naill ai'n cynnal ymchwiliad rhagarweiniol, neu gall gyfeirio'r penderfyniad i Bwyllgor Apeliadau.

Bydd o leiaf 3 pherson ar y pwyllgor Apeliadau fel arfer, yn cynnwys o leiaf un aelod annibynnol sydd heb weithio i CBAC yn y 5 mlynedd diwethaf. Ni fydd wedi ymwneud â'r achos yn flaenorol ac ni fydd ganddo unrhyw wrthdaro buddiannau. Bydd CBAC yn cysylltu â'r apelydd/canolfan i benderfynu ar ddyddiad priodol ar gyfer y gwrandawiad.

Os yw'r apelydd yn penderfynu peidio â mynychu, bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar y dystiolaeth ysgrifenedig. Bydd ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Apeliadau yn rhoi copi o'r holl ddogfennau a fydd yn cael eu hystyried gan y pwyllgor i'r apelydd. Bydd gan Gadeirydd y Pwyllgor yr hawl i benderfynu a yw unrhyw dystiolaeth bellach yn dderbyniol i'w chyflwyno yn y gwrandawiad ac a oes modd galw tystion. Rhaid i'r apelydd hysbysu apeliadau@cbac.co.uk gyda 14 diwrnod calendr o rybudd os yw'n dymuno cyflwyno tystiolaeth bellach neu os bydd unrhyw unigolion ychwanegol yn mynychu'r gwrandawiad. Bydd tîm Cydymffurfio CBAC yn trefnu i'r Cadeirydd adolygu unrhyw geisiadau o'r fath a byddant yn cyfleu eu penderfyniad 7 diwrnod calendr cyn y gwrandawiad.

Bydd gweithdrefnau'r gwrandawiad yn dilyn y rheini a nodir yn nogfen y CGC – *Canllaw ar brosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu.* Bydd y Cadeirydd yn rhoi gwybod i'r apelwyr am y broses ar ddechrau'r gwrandawiad.

**Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth am y gweithdrefnau ar gyfer cynnal gwrandawiad Apêl**

**Mae penderfyniad Pwyllgor Apeliadau yn derfynol. Gall Cymwysterau Cymru ystyried apêl o dan y Gwasanaeth Adolygu Gweithdrefnau Arholiadau.**

# 6 Trefniadau mynediad, addasiadau rhesymol ac ystyriaeth arbennig

Bydd penderfyniadau trefniadau mynediad, addasiadau rhesymol ac ystyriaeth arbennig yn seiliedig ar gytundeb rhwng cyrff dyfarnu fel y dogfennir yn nogfen y CGC *'Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol' a 'Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig'.*

Ar ôl edrych ar y dogfennau, os yw pennaeth y ganolfan neu ymgeisydd preifat (yr apelydd) yn teimlo nad yw CBAC wedi dilyn gweithdrefnau priodol, dylid cyflwyno cais i CBAC yn nodi'r rhesymau dros gyflwyno'r apêl gan ddefnyddio ffurflen 'Cais am Apêl' y CGC.

Mae'n rhaid cyflwyno'r cais am apêl o fewn **2 wythnos galendr** o dderbyn y penderfyniad gwreiddiol. Bydd eich apêl yn cael ei chydnabod o fewn **5 diwrnod gwaith** i'w derbyn.

Mae cam cyntaf yr apêl, yr Ymchwiliad Rhagarweiniol yn cynnwys ymchwiliad newydd o'r achos gan uwch swyddog CBAC (neu bwyllgor o swyddogion) sydd heb ymwneud â'r achos yn flaenorol. Bydd yr adolygiad yn ystyried sail yr apêl a gyflwynwyd gan yr apelydd ac adolygiad o weithdrefnau'r CGC a CBAC a ddilynwyd wrth ddod i benderfyniad. Fel arfer, bydd

yr apelydd yn cael gwybod am y penderfyniad a'r rhesymau o fewn **6 wythnos galendr** i CBAC dderbyn y cais am apêl a'r holl wybodaeth/dystiolaeth berthnasol.

Os yw'r apelydd yn dal yn anfodlon fod y penderfyniad wedi'i wneud yn unol â'r gweithdrefnau cyhoeddedig ar ôl canlyniad yr Ymchwiliad Rhagarweiniol, dylid defnyddio ffurflen 'Cais am Apêl' y CGC i gyflwyno cais am wrandawiad Apêl. Rhaid cyflwyno'r cais o fewn **2 wythnos galendr** i dderbyn canlyniad yr Ymchwiliad Rhagarweiniol.

Wrth gynnal gwrandawiad Apêl, bydd CBAC yn dilyn y gweithdrefnau a ddogfennir yn nogfen y CGC ***Canllaw ar brosesau apeliadau'r cyrff dyfarnu***.

**Gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth am y gweithdrefnau ar gyfer cynnal gwrandawiad Apêl.**

Mae penderfyniad Pwyllgor Gwrandawiad Apêl CBAC yn derfynol. Gall y rheoleiddiwr perthnasol, yn ôl ei ddisgresiwn, wrando ar yr apêl unwaith y bydd holl gamau apêl CBAC wedi'u cwblhau.

# 7 Adolygiad o benderfyniadau gweinyddol eraill

Dylai pennaeth canolfan neu ymgeisydd preifat sy'n bryderus am benderfyniadau gweinyddol eraill mewn perthynas â'r canlynol:

- Ymgeiswyr yn cyrraedd yn hwyr iawn
- Sgriptiau coll
- Defnydd o aegrotat

cyflwyno cais ar ran y ganolfan i gael ailystyried y penderfyniad hwnnw gan ddefnyddio ffurflen 'Cais am Apêl' y CGC i ddatgan y sail ar gyfer y cais i CBAC a thicio'r blwch 'adolygiad o benderfyniadau gweinyddol eraill'. Mae'n rhaid gwneud cais am adolygiad o berfformiad o fewn 14 diwrnod calendr i dderbyn y penderfyniad gwreiddiol a dylai nodi sail yr apêl yn glir ac yn gryno.

Bydd y penderfyniad yn cael ei adolygu gan Uwch Swyddog CBAC (neu bwyllgor o swyddogion) a bydd ymateb yn cael ei anfon at bennaeth y ganolfan. Bydd CBAC yn cydnabod derbyn y cais o fewn 5 diwrnod gwaith ac fel arfer yn ymateb yn llawn o fewn **6 wythnos galendr.**

Nid yw'r achosion hyn yn destun gwrandawiad apêl, ac mae'r penderfyniad adolygu yn derfynol.

# 8 Gwybodaeth ddefnyddiol

**Manylion Cyswllt CBAC:** apeliadau@cbac.co.uk

Y Tîm Cydymffurfio: Ffôn: 029 20 265351

**Dogfennau'r CGC**

# Atodiad 1: Gwrandawiad Apêl

### Pwy sy'n rhan o'r gwrandawiad apêl?

- Pwyllgor Apeliadau CBAC fydd yn cynnal y gwrandawiad. Bydd o leiaf tri pherson ar y pwyllgor, yn cynnwys un aelod annibynnol sydd heb weithio i CBAC yn y 5 mlynedd diwethaf.

### Beth yw'r amserlen ar gyfer cynnal gwrandawiad Apêl?

- Yn unol â therfynau amser y CGC, mae CBAC yn anelu at gynnal Gwrandawiad Apêl o fewn **10 wythnos galendr** o dderbyn y cais am Wrandawiad Apêl.

### A oes angen i'r apelydd fynychu'r gwrandawiad Apêl?

- Bydd yr apelydd yn cael ei wahodd i gyflwyno'i achos personol i'r gwrandawiad.

### Pa wybodaeth y bydd angen i mi ei chyflwyno i CBAC cyn gwrandawiad Apêl?

- Rhaid darparu enwau a theitlau swyddi unigolion sy'n mynychu'r gwrandawiad yn ysgrifenedig i apeliadau@cbac.co.uk yn ddim hwyrach na 7 diwrnod calendr cyn dyddiad y gwrandawiad (fel arfer dim mwy na 3).

### A fyddaf yn derbyn gwybodaeth am achos CBAC cyn Gwrandawiad yr Apêl?

- Byddwch, bydd gwybodaeth ar gael i'r apelydd 7 diwrnod  calendr cyn dyddiad y gwrandawiad.

### Beth yw'r graddfeydd amser ar gyfer derbyn gwybodaeth gan CBAC am Ymchwiliad Rhagarweiniol a gwrandawiad Apêl?

- Bydd CBAC yn cofnodi'r cais am apêl ac yn cydnabod ei derbyn o fewn 5 diwrnod gwaith
- Ymchwiliad rhagarweiniol: Bydd CBAC yn anfon llythyr, sy'n crynhoi canlyniad ei Ymchwiliad Rhagarweiniol, o fewn **6 wythnos galendr** o'i dderbyn, fel arfer. Os nad yw'r ymchwiliad yn gallu cael ei gwblhau o fewn y raddfa amser hon, byddwn yn rhoi gwybod i'r ganolfan
- Gwrandawiad Apêl: Bydd yr apelydd a CBAC fel arfer yn cael gwybod am benderfyniad Gwrandawiad Apêl o fewn **5 diwrnod gwaith** i'r gwrandawiad. Bydd adroddiad cryno neu drawsgrifiad o'r gwrandawiad yn cael ei roi i'r apelydd ac i gynrychiolydd CBAC o fewn **28 diwrnod calendr** ar ôl y gwrandawiad apêl. Mae'r adroddiad cryno/trawsgrifiad hwn yn gyfrinachol i'r sawl sy'n rhan o'r apêl ac ni ddylid ei rannu â thrydydd parti heb ganiatâd CBAC ymlaen llaw.